**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH/PO/3/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

9 Ionawr 2025

Annwyl Mike,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Cyfarfodydd Rhynglywodraethol i ddod**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i'ch hysbysu imi fynd i ail gyfarfod Grŵp y Pedair Gwlad am Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth y DU. Fel imi nodi yn fy llythyr atoch ym mis Tachwedd, pwrpas y grŵp yw cynnwys yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn y gwaith o ddatblygu Strategaeth ar Dlodi Plant ar gyfer y DU gyfan. Bydd y grŵp yn rhoi cyfle i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon lywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth ar gyfer y DU gyfan, a sicrhau bod y strategaeth arfaethedig yn ategu'r strategaethau presennol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd eisoes ar waith.

Cafodd y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, ei gadeirio gan Alison McGovern AS - Gweinidog Cyflogaeth y DU. Hefyd yn bresennol roedd Shirley-Anne Somerville ASA - Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Llywodraeth yr Alban, a Gordon Lyons ACD, Gweinidog Cymunedau Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Canolbwyntiodd y cyfarfod ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer strategaeth y DU, gan ystyried trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y Tasglu a Grŵp y Pedair Gwlad yn y dyfodol. Yn ystod y cyfarfod hwn, amlygais gwestiynau allweddol Llywodraeth Cymru ar dariffau cymdeithasol ynni a Chyfraddau Lwfans Tai Lleol. Tynnais sylw hefyd at bwysigrwydd gofal plant fel rhan o'r hyn y gallwn ei wneud i helpu pobl i gael llwybrau allan o dlodi a manteisio ar gyfleoedd i gael sgiliau a chyflogaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt @gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig; y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip